**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| F M Gordon | B Hopkins | L R Jones |
| H Lawson | M B Lewis | S Pritchard |
| D W W Thomas | | |

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd R V Smith (Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau)

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol:**
Matthew Goulding – Pennaeth – Ysgol Pentrehafod
Ashley Payne – Dirprwy Bennaeth – Ysgol Gymunedol Dylan Thomas

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol;

Y Cynghorydd Mike Durke – Eitem 4 ar yr Agenda - Cadw Disgyblion ar y Trywydd Iawn: Enghreifftiau o Arfer Gorau o Ysgolion Pentrehafod a Dylan Thomas – Personol.

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

## 22 Cadw Disgyblion Ar y Trywydd Iawn: Enghreifftiau o Arfer Gorau gan Ysgolion Pentrehafod a Dylan Thomas.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Goulding a Mr Payne i'r cyfarfod.

Amlinellodd Ashley Payne, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gymunedol Dylan Thomas, y gwahanol gamau gweithredu a mentrau a oedd wedi helpu i gefnogi'r disgyblion, y staff a'r rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud amrywiol, ac ymysg y rhain roedd:

- grŵp penaethiaid SCASH a oedd wedi parhau i gyfarfod drwy Teams drwy gydol y pandemig,
- cyswllt rheolaidd rhwng y pennaeth a phenaethiaid yr holl ysgolion dalgylch cynradd,
- sefydlu'r ganolfan iechyd yn Townhill yn y lle cyntaf,
- argaeledd prydau ysgol am ddim (50%+ o ddisgyblion) ar gyfer plant yn y cyfyngiadau symud cyntaf a'r newid i'r system daliadau ar ôl hynny,
- darparu'r cyfleuster gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol,
- darparu offer TG i blant fel y gellid eu cynnwys mewn gwaith ar-lein ac ar gyfer presenoldeb,
- gwirio presenoldeb disgyblion ar-lein a'r ymweliadau/galwadau dilynol gan staff i annog presenoldeb a chyfranogiad,
- cyflwyno gwaith i ddisgyblion;
- cefnogaeth a chymorth penodol i ddysgwyr sy'n agored i niwed;
- datblygu cynllun gweithredu adfer COVID sy'n cysylltu â'r cynllun datblygu ysgolion,
- roedd y cyswllt da â staff, gwaith i sefydlu grwpiau lles a staff yn helpu ac yn cefnogi'i gilydd ac yn cyflenwi ar gyfer cydweithwyr a oedd yn absennol yn rhagorol,
- problemau iechyd meddwl/pryder i bobl ifanc a'u teuluoedd,
- cefnogaeth a chymorth i bobl ifanc a theuluoedd a oedd wedi colli perthnasau – roedd darparu gwasanaeth cwnsela a chyngor profedigaeth gan yr awdurdod lleol wedi helpu'n fawr,
- grwpiau llwyfan ar gyfer pobl ifanc â hwyliau isel – mae rhaglen 6 wythnos wedi gweithio'n dda,
- roedd trefniadau pontio ar gyfer y disgyblion Blwyddyn 8 cyfredol wedi achosi rhai problemau oherwydd y cyfyngiadau symud a'r cyfyngiadau amrywiol a'r diffyg cyswllt dilynol rhwng yr ysgol/disgybl/teuluoedd cyn iddynt fynychu'r ysgol, sydd wedi bod yn broblem,
- defnyddiwyd y rhaglen cynhwysiant TIDE i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'r rheini â phroblemau cymdeithasol yn dda gan ddisgyblion,
- problemau gyda nifer y disgyblion â datganiadau sydd am fynychu'r ysgol a diffyg argaeledd a mynediad i'r CAAau wedi bod yn broblem sydd wedi arwain at fuddsoddiad mewn dosbarthiadau anogaeth a gwelliannau sylweddol i'r ystafelloedd dosbarth a'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer disgyblion CAAau,
- parhau i fonitro presenoldeb a gwaith dilynol gyda disgyblion i ennyn diddordeb ac annog gwell presenoldeb,
- caiff defnydd cymunedol o gaeau chwarae ysgolion ei ddiogelu, datblygwyd campfa newydd i ddisgyblion, ac mae chwaraeon/lles wedi'u gwreiddio yn y

cwricwlwm nawr, penodwyd swyddog hwb rygbi'n ddiweddar a chysylltiadau â'r Elyrch ar bêl-droed ADY,
- dyfarnu graddau TGAU eleni drwy asesiadau/dim arholiadau,
- nid oedd problemau ynghylch cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru a gwybodaeth ganddi'n cael ei sibrwd wrth y wasg yn ystod y pandemig yn beth da i ysgolion oherwydd yn aml adroddwyd amdani yn y cyfryngau cyn i'r awdurdod lleol/ysgolion ei derbyn ac roedd diffyg arweiniad a chyngor/arweiniad gan CBAC hefyd yn broblem,

Amlinellodd Matthew Goulding, Pennaeth Ysgol Pentrehafod hefyd y gwahanol gamau gweithredu a mentrau a oedd wedi helpu i gefnogi'r disgyblion, y staff a'r rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud, a rhoddodd gyflwyniad Powerpoint manwl ac addysgiadol i'r pwyllgor a oedd yn cynnwys ac yn cwmpasu'r meysydd canlynol:
- cyfansoddiad yr ysgol - 1000+ o ddisgyblion ar y gofrestr (11-16 oed), 36.4% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim (41.3% os ystyrir darpariaeth drosiannol), 63% o ddisgyblion yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (Malc),
- deall beth yw bod yn agored i niwed a'i effaith ar gynnydd myfyrwyr a chyfleoedd bywyd – datblygu dealltwriaeth gyffredin o fyfyrwyr sydd â rhwystr i ddysgu a datblygu a allai fod o feysydd eang fel amddifadedd cymdeithasol, problemau presenoldeb, problemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu ychwanegol, prydau ysgol am ddim, Saesneg fel iaith ychwanegol etc.
- cerrig milltir allweddol ar daith plentyn drwy system yr ysgol – cysylltiadau ag ysgolion clwstwr a phroblemau'n ymwneud â diffyg sgiliau darllen a llythrennedd, tlodi rhwng y cenedlaethau a diffyg datblygiad sgiliau cymdeithasol plant, effaith COVID wrth symud ymlaen,
- effaith y cwricwlwm newydd ar addysgu a sut caiff plant eu haddysgu, a'r hyn y caiff ei addysgu iddynt,
- adnabod eich myfyrwyr – datblygu proffil manwl o bob myfyriwr ar lefel academaidd a lles, gan gynnwys proffil gwybyddol, effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, presenoldeb/gwaharddiad etc.,
- datblygu rhaglen "disgybl ar dudalen" sy'n cynnwys maes eang o ddata ar bynciau fel presenoldeb, cyflawniad, ymddygiad, lles, lefelau darllen etc.,
- datblygu "dosbarth" a "blwyddyn" ar dudalen i gymharu, cyferbynnu a monitro ar draws carfan ehangach,
- angen posib am fwy o gymorth gan awdurdod lleol ar broblemau presenoldeb oherwydd effaith barhaus COVID ac yn ddelfrydol gallai pob ysgol gyfun gael ei swyddog lles addysg pwrpasol ei hun,
- mae tegwch yn dechrau gyda chyflawniad – annog plant a rhoi cyfle iddynt fod yn llwyddiannus,
- Rhaglen i gyn-fyfyrwyr – a ddechreuwyd yn ystod Pasg 2020 – codi gorwelion a disgwyliadau disgyblion, rhoi profiadau gwahanol a chyfoethog i ddisgyblion a mynd â nhw i leoedd nad ydynt erioed wedi bod, yn gorfforol ac yn feddyliol, gan groesawu cyn-ddisgyblion yn ôl i'r ysgol yn unigol a thrwy fusnesau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, prentisiaethau a phosibiliadau mentora,
- cysylltiadau rhagorol â Gyrfa Cymru a'r cynllun cyfnewid busnes addysg, ffeiriau gyrfaoedd, fideos cyflogaeth,
- cysylltiadau â Phartneriaeth Virgin Atlantic – un o dair ysgol yn unig yn y byd sy'n rhan o hyn,

- "clwb disglair" – ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog a chymorth gydag ymweliadau prifysgol a hyfforddiant ychwanegol,
- datblygu iechyd a lles ysgol gyfan – gan gynnwys ymgysylltu â phartneriaid cymunedol, mireinio'r rhaglen perthnasoedd/addysg rhyw, arolwg disgyblion yn helpu i ddatblygu syniadau newydd, datblygu rhaglen ddarllen i ysgolion,
- effaith COVID yn enwedig ar arferion yr ysgol, y fenter ymgysylltu a phresenoldeb a materion pontio ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 cyfredol,
- cwricwlwm eang a chynnig cyrsiau galwedigaethol – ond mae rhai problemau gyda myfyrwyr sy'n mynychu'r coleg ac yn addasu i'r amgylchedd gwahanol "nad yw'n amgylchedd ysgol",
- problemau gyda phrosiect Cynnydd, yn enwedig o ran materion coladu data a biwrocratiaeth,
- yr hyn y mae angen i ni ei wneud wrth symud ymlaen – problemau ledled y wlad gyda llythrennedd, datblygu proffil darllen Abertawe gyfan, anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, cynlluniau peilot gyda chymunedau ar fentora ac entrepreneuriaeth.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaethant sylwadau ynghylch y cyflwyniadau a'r gwaith a'r mentrau a gynhaliwyd gan y ddwy ysgol yn ystod gwahanol gyfnodau'r cyfyngiadau symud gwahanol, ac ymatebodd Mr Payne a Mr Goulding yn briodol iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i'r ddau athro am eu presenoldeb a'u mewnbwn.

**23 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.**

Cymeradwywyd

Daeth y cyfarfod I ben am 5.32 pm

**Cadeirydd**